**LC1223**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad

Mae adran 198(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn galluogi'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir (neu ysgolion uwchradd a gynhelir o ddosbarth penodedig) a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo fynd ati ar y cyd i lunio cynlluniau (i'w hadnabod fel cynlluniau pontio) i hwyluso cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r gofyniad yn cael ei nodi yn yr offeryn yma.

Wrth benderfynu a ddylai ysgol gynradd benodol gael ei thrin fel ysgol sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol, rhaid rhoi sylw i ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad. Mae'r offeryn yma'n cynnwys canllawiau o'r fath.

Mae'r offeryn yn cael ei wneud o dan Reol Sefydlog 29 (Is-ddeddfwriaeth nad oes angen ei gwneud drwy Offeryn Statudol).

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Bydd yr Aelodau’n nodi bod Rheoliadau perthynol – Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a’r Ysgol Ucwhradd (Cymru) 2006 – yn dod i rym ar 1 Medi 2006.

Bernir y dylai’r enw’r offeryn ddarllen "Gofyniad am lunio Cynllunio Pontio ac Arweiniad 2006".

Mae pwyntiau fformadu y byddai’n addas eu cywiro wrth gyhoeddi’r gofyniad wedi’u mynegi i’r cyfreithiwr a’i drafftiodd.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Chwefror 2006